# BANGOR LINGUISTICS CIRCLE

## 05/04/2023, 16:00

**Duncan Tanner Room and online**

**Prof Jane Stuart-Smith**
**University of Glasgow**



## Sound perspectives for inferring social meaning? Speech and speaker dynamics over a century of Scottish English

As in many disciplines, in sociolinguistics too, perspective matters. Structured variability in language occurs at all linguistic levels and is governed by a large range of diverse factors. Viewed through a synchronic lens, such variation informs our understanding of linguistic and social-cognitive constraints on language at particular points in time; a diachronic lens expands the focus across time. And, as Weinreich et al (1968) pointed out, structured variability is integral to linguistic description and explanation as a whole, by being at once both the stuff of the present, the reflexes of the past, and the potential for changes in the future. There is a further dimension which is often not explicit, the role of analytical perspective on sociolinguistic phenomena.

This paper considers a particular kind of structured variability, phonetic and phonological variation, within the sociolinguistic context of the recorded history of Glasgow vernacular English across the 20th century. Two aspects of perspective frame my key research questions: (1) what are the 'things' we observe, and from which we infer social meaning may be at work in speech? (2) How are these 'things' embedded in time and social space? I consider these questions by reviewing a series of studies on two sounds in Glaswegian English, the first thought to be stable and not undergoing sound change (/s/, as in e.g. seat), the second thought to be changing (postvocalic /r/, as in e.g. car).

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

**Contact us:**

@LingCircBU

linguisticscircle@bangor.ac.uk

# CYLCH IETHYDDIAETH BANGOR

**05/04/2023, 16:00**

**Ystafell Duncan Tanner ac ar-lein**

**Prof Jane Stuart-Smith**

**Prifysgol**



## Sound perspectives for inferring social meaning? Speech and speaker dynamics over a century of Scottish English

Mae persbectif yn bwysig mewn llawer o ddisgyblaethau, ac mae hynny'n wir am sosioieithyddiaeth hefyd. Mae amrywioldeb strwythuredig mewn iaith yn digwydd ar bob lefel ieithyddol ac yn cael ei reoli gan amrywiaeth eang o ffactorau amrywiol. O edrych arno trwy wydr syncronig, mae amrywiad o'r fath yn llywio ein dealltwriaeth o gyfyngiadau ieithyddol a chymdeithasol-wybyddol ar iaith ar adegau penodol; mae gwydr diacronig yn ehangu'r ffocws dros amser. Fel y nododd Weinreich et al (1968), mae amrywioldeb strwythuredig yn rhan annatod o ddisgrifiad ac esboniad ieithyddol drwyddo draw, gan ei fod yn ymwneud â'r presennol, yn dangos atgyrchau'r gorffennol ac yn dangos y potensial am newidiadau yn y dyfodol, i gyd ar yr un pryd. Ceir dimensiwn pellach nad yw'n amlwg yn aml, sef cyfraniad persbectif dadansoddol at ffenomenau sosioieithyddol.

Mae'r papur hwn yn ystyried math arbennig o amrywioldeb strwythuredig, amrywiad ffonetig a ffonolegol, yng nghyd-destun sosioieithyddol hanes Saesneg brodorol Glasgow yn ystod yr 20fed ganrif. Mae dwy agwedd ar bersbectif yn fframio fy mhrif gwestiynau ymchwil: (1) beth yw'r 'pethau' rydym yn sylwi arnynt, ac sy'n gwneud i ni ddod i'r casgliad y gallai ystyr cymdeithasol fod ar waith mewn lleferydd? (2) Sut mae'r 'pethau' hyn wedi eu gwreiddio mewn amser a lle cymdeithasol? Rwy'n ystyried y cwestiynau hyn drwy adolygu cyfres o astudiaethau o ddwy sain yn Saesneg Glasgow, sain y credir ei bod yn sefydlog a heb fod yn destun newid (/s/, e.e. seat), a sain y credir ei bod yn newid (ôl-leisiol /r/, e.e. car).

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

**Cysylltwch â ni:**

@LingCircBU

linguisticscircle@bangor.ac.uk